Ordered by The House of Commons to be printed 10 October 2011

© Comisiwn Ffinau I Gymru 2011

The text of this document (this excludes, where present, the Royal Arms and all departmental and agency logos) may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not in a misleading context

The material must be acknowledged as Boundary Commission for Wales copyright and the document title specified. Where third party material has been identified, permission from the respective copyright holder must be sought.

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk.

This publication is available for download at www.official-documents.gov.uk.

This document is also available from our website at <http://www.comffin-cymru.gov.uk>.

ISBN: 9780102975055

Printed in the UK for The Stationery Office Limited
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office

ID P002457391 10/11

Printed on paper containing 75% recycled fibre content minimum



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU BRECON AND RADNORSHIRE, A MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF BRECON AND RADNORSHIRE, AND MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodiad 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, cyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod yn rhinwedd ei swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd.*

A thri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MEISTR USTUS LLOYD JONES, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

MR PAUL WOOD,
a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

MR JOHN BADER,
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Ysgrifennydd

Mr Edward Lewis

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD.....	1
B. ARGYMHELLION DROS DRO	3
C. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD.....	4
D. GYMHELLION TERFYNOL	5
Atodiad A Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau	6
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad	8
Atodiad C Datganiad ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg	10
Atodiad D Cyfansoddiad y ddwy etholaeth a argymhellwyd.....	12
Atodiad E Map o Bontsticill Isaf.....	13
Atodiad F Map o Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad	14

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ynglŷn â'r ardaloedd a gynhwysir yn etholaethau Brecon and Radnorshire, a Merthyr Tydfil and Rhymney.

I'R GWIR ANRHYDEDDUS NICK CLEGG AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi o dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel y nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, arolygu'n barhaus ddosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol. O dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
2. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal arolygon o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon cyffredinol o etholaethau Seneddol, yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
3. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf ynghylch arolwg cyffredinol (HC 743-I) ar 31 Ionawr 2005, a rhoddwyd ein hargymhellion ar waith gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a luniwyd ar 11 Ebrill 2006 (OS 2006 Rhif 1041). Daeth yr etholaethau newydd mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn ystod etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007, ac mewn perthynas ag etholaethau Seneddol, daeth yr etholaethau newydd i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010.
4. Daeth Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Pontsticill) 2009 i rym ar 1 Mai 2009 gan newid y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys. Yn ogystal, daeth Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010 i rym ar 1 Ebrill 2010 sy'n gwneud newidiadau cyfatebol i ffin y siroedd wedi'u cadw. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Etholaeth Sirol (ES) Merthyr Tydfil and Rhymney ac Etholaeth Sirol Brecon and Radnorshire bellach yn dilyn y ffin sirol ac, felly, penderfynodd y Comisiwn gynnal arolwg o'r ardal yr effeithiwyd arni yn unol ag adran 3 (3) o Ddeddf 1986.
5. Rhoddom wybod am ein bwriad i ddechrau'r arolwg ar 21 Rhagfyr 2009 ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniatodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, mae'r adroddiad wedi cymryd naw mis i'w gwblhau.

6. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd iddynt yn aml fodloni terfynau amser cyfyng iawn.
7. Mr Edward Lewis yw ein Hysgrifennydd. Fe'i cynorthwywyd gan yr Ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr Matthew Redmond, Mr David Carr, Mrs Liza Brough, Mr Ralph Handscomb, Mrs Abigail Prescott-Bird, Mr David Burley, Miss Leanne Jones a Mrs Catherine Thomas.
8. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr arolwg. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r arolwg fynd yn ei flaen.

B. ARGYMHELLION DROS DRO

9. Cyhoeddodd ein darpar argymhellion ar 1 Mehefin 2010, a chyhoeddwyd hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a oedd yn cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau cyn pen y cyfnod statudol o un mis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn manau cyfleus yn yr etholaethau yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn ar www.bcomm-wales.gov.uk.
10. Daeth Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Pontsticill) 2009 i rym ar 1 Mai 2009 gan newid y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys. Yn ogystal, daeth Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010 i rym ar 1 Ebrill 2010 sy'n gwneud newidiadau cyfatebol i ffin y siroedd wedi'u cadw. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Etholaeth Sirol Merthyr Tydfil and Rhymney ac Etholaeth Sirol Brecon and Radnorshire bellach yn dilyn y ffin sirol, gan effeithio ar 18 o etholwyr. Ein hargymhellion dros dro oedd newid ffin yr etholaeth er mwyn cydymffurfio a'r ffin sirol newydd, a throsglwyddo'r 18 etholwr o Etholaeth Sirol Brecon and Radnorshire i Etholaeth Sirol Merthyr Tydfil and Rhymney.
11. Etholaethau seneddol yw etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, byddai'r newid i'r etholaethau seneddol a gynigir yn ein darpar argymhellion yn cynnwys newid etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Merthyr Tydfil a Rhymney a Brecon and Radnorshire.
12. Cynhwysir etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney yn rhanbarth etholiadol Dwyrain De Cymru y Cynulliad a chynhwysir Brecon and Radnorshire yn rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r etholaethau Seneddol, byddai cynnydd o 18 o etholwyr yn rhanbarth etholiadol Dwyrain De Cymru y Cynulliad a byddai gostyngiad cyfatebol yn rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y mân newid hwn, a oedd yn cynnwys nifer fach o etholwyr, yn ei wneud yn ofynnol newid cyfansoddiad rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.

C. CYNRYCHOLAETHAU A DDERBYNIWYD

13. Derbyniwyd un gynrychiolaeth (gweler i isod) ynghylch ein hargymellion dros dro yn ystod y cyfnod statudol un mis:
 - i. Cefnogodd Cyngor Sir Powys ein cynigion.
14. Gan na dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'n cynigion gan brif gyngor nac unrhyw gorff o etholwyr a oedd yn gant neu fwy mewn nifer, nid oedd unrhyw ofyniad yn unol ag adran 6(2) o'r Ddeddf i gynnal ymchwiliad lleol cyn bwrw ymlaen â'n hargymellion.

D. ARGYMHELLION TERFYNOL

15. Argymhellwn fabwysiadu ein hargymhellion dros dro fel a ganlyn:
 - i. newid y ffin rhwng Etholaeth Sirol Merthyr Tydfil and Rhymney ac Etholaeth Sirol Brecon and Radnorshire i gydymffurfio â'r ffin sirol rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys fel y newidiwyd gan Orchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Pontsticill) 2009; a
 - ii. newid y ffin rhwng rhanbarth etholiadol Dwyrain De Cymru y Cynulliad a rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad i gydymffurfio â'r newid a argymhellir yn i. uchod ac yng Ngorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol (Newid yn Ardaloedd) 2010.
16. Nodir cyfansoddiad manwl y ddwy etholaeth argymelledig yn Atodiad Ch. Ceir mapiau sy'n dangos y newidiadau argymelledig yn Atodiadau D a Dd.

Yr Anrhydeddus Meistr Ustus David Lloyd Jones, *Dirprwy Gadeirydd*

Mr Paul Wood

Mr John Bader

Edward Lewis, Cyd-ysgrifennydd

Hydref 2010

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDAU

Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol uwch na llai na 613.
- (2) ...
- (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
- (4) ...
2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.
3. ...
- 3A. ...
- 4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3 -
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, -
 - (i) ni chynhwysir unrhyw sir nac unrhyw ran o sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
- (1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod, mae "sir" yn golygu mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- (2) ...
5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddo fod gwyro'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y maent yn ymwneud â hwy.
6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddo fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyriad yn ddymunol.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond bydd yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n rhesymol -
- (a) yr anghyfleustra sydd ynglwm wrth newid etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac
 - (b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau hyn.
8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn ffiniau ar ei chyfer -
- (a) ystyr yr ymadrodd "cwota etholiadol" fydd y nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,
 - (b) ystyr yr ymadrodd "etholwyr" yw -
 - (i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,
 - (ii) mewn perthynas â rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,
 - (c) ystyr yr ymadrodd "dyddiad cyfrif" mewn perthynas ag unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.
9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol wedi'i ddilyn gan rif, yn gyfeiriad at reol a nodir yn y paragraff sydd â'r un rhif yn yr Atodlen hon.

RHEOLAU AR GYFER CYFANSODDIAD RHANBARTHOU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD

Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Y Rheolau

- 8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -
1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.
 2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan roi sylw (lle bo'n briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.
 3. Cyfanswm nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) hanner y nifer a geir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.
 4. Nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) un rhan o bump o gyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â phump) naill ai un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a geir drwy ychwanegu un rhan o bump at y rhif hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).
- (2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad â phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -
- (a) cyfanswm nifer y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a'r
 - (b) rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rannu'n union â phump,
- a dyna nifer y seddau sy'n weddill i'r Comisiwn eu dyrannu.
- (3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i ranbarth etholiadol y Cynulliad.
- (4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad gyda chyfanswm o -
- (a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, ac
 - (b) un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union â phump,

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddau sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu sedd neu seddau i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw'n cynhyrchu'r nifer neu'r niferoedd uchaf ar eu cyfer.

DATGANIAD YNGHYLCH DEFNYDDIO'R IAITH GYMRAEG

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru lunio cynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi cynllun felly, rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BIG). Paratowyd cynllun gan y Comisiwn, a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o'r cynllun ar gael ar gais, ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn.
3. Dyma'r ymrwymadau a gynhwysir yn y cynllun iaith Gymraeg:
 - (a) caiff pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;
 - (b) caiff holl bapur swyddfa'r Comisiwn ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (c) caiff gohebiaeth a ddechreuir gan y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y mae'n hysbys eu bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg ei anfon yn y Gymraeg;
 - (ch) caiff newyddlenni, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynnau gwybodaeth, datganiadau am ymchwiliadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (d) caiff unrhyw benawdau, allweddau, eglurhadau, rhestri, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a brynwyd oddi wrth gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
 - (dd) lle bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y gall fod nifer o gyfranogwyr Cymraeg eu hiaith;
 - (e) bydd y Comisiwn yn trefnu bod cyfieithwyr allanol proffesiynol yn mynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
 - (f) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi siaradwyr Cymraeg yn ei Ysgrifenyddiaeth pan gaiff aelodau staff newydd eu recriwtio. I hyrwyddo'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi yn ei Ysgrifenyddiaeth;
 - (ff) bydd y Comisiwn yn ateb yr holl ohebiaeth yn yr iaith a ddewiswyd gan y gohebydd;
 - (g) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth cyn pen deg diwrnod gwaith o dderbyn llythyr, ni waeth os bydd angen ateb yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog; a
 - (ng) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan y galwr.

4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer ymchwiliadau lleol. Mae wedi cytuno y dylai dau gyfieithydd fynychu pob ymchwiliad lleol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg yn ystod ymchwiliadau lleol lle bo tebygolrwydd uchel y siaredir Cymraeg.

1. Mae cyfansoddiad y ddwy etholaeth a argymhellwyd fel a ganlyn (caiff etholaethau 2009 eu dangos mewn cromfachau):

ETHOLAETH SIROL BRECON AND RADNORSHIRE (53,354) adrannau etholiadol **Sir Powys**: Aber-craf, Bugeildy, Brwynllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Cwm-twrch, Diserth a Thre-coed, Felin-fach, Y Clas-ar-wy, Gwernyfed, Y Gelli, Trefyclo, Llanafan Fawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangatwg, Llan-gors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd, Llanllŷr-yn-Rhos, Maes-car/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanandras, Rhaeadr Gwy, Llan-faes, St. David Fewnol, St.John, St.Mary, Talgarth, Tal-y-bont ar Wysg, Tawe-Uchaf, Ynysgedwyn, Aberysgir, Ystradgynlais.

ETHOLAETH SIROL MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY (52,708) adrannau etholiadol **Sir Merthyr Tudful**: Bedlinog, Cyfarthfa, Dowlais, Y Gurnos, Ynysowen, Y Parc, Penydarren, Plymouth, Y Dref, Treharris a'r Faenor. Adrannau etholiadol **Sir Caerffili**: Cwm Darren, Moreia, Tredegar Newydd, Pontlotyn a Thwyn Carno.

2. Yr adrannau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r adrannau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn (Wardiau) Cymuned Pencraig 2001
- Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003
- Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004
- Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol Cymunedol) 2006
- Gorchymyn Powys (Cymunedau) 2008
- Gorchymyn Merthyr Tudful a Phowys (Ardaloedd) 2009

a

- Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 1994

a

- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Blaenau Gwent a Caerffili (Tredegar a Rhymni) 2002


3. Mae cyfansoddiad dau ranbarth etholiadol y Cynulliad a argymhellwyd fel a ganlyn:

CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU: ES Brecon and Radnorshire, ES Carmarthen East and Dinefwr, ES Carmarthen West and South Pembrokeshire, ES Ceredigion, ES Dwyfor Meirionnydd, ES Llanelli, ES Montgomeryshire ac ES Preseli Pembrokeshire.

DWYRAIN DE CYMRU: ES Blaenau Gwent, ES Caerphilly, ES Islwyn, ES Merthyr Tydfil and Rhymney, ES Monmouth, ES Newport East, ES Newport West ac ES Torfaen.

MERTHYR TUDFUL A POWYS

Atodiad E



Atgynhyrchwyd â chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2010. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100012255.

**BRECON AND RADNORSHIRE - MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY
COUNTY CONSTITUENCIES A RHANBARTH ETHOLIADOL Y CYNULLIAD**





COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU OGMORE A PONTYPRIDD

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF OGMORE AND PONTYPRIDD

MAWRTH 2011

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, cyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod yn rhinwedd ei swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd.*

A thri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS LLOYD JONES, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

MR PAUL WOOD,
a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

MR JOHN BADER,
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Ysgrifennydd

Mr Edward Lewis

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD	1
B. ARGYMHELLION DROS DRO.....	3
C. CYNRYCHIO LAETHAU A GAFWYD	4
D. ARGYMHELLION TERFYNOL	5
Atodiad A Rheolau ar gyfer Aiddosbarthu Seddau	6
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad ..	8
Atodiad C Datganiad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg	10
Atodiad D Cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig.....	12
Atodiad E Map o Llanharan, Llanhari a Phont-y-clun	13
Atodiad F Map o Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad.....	14

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar berthynas yr ardaloedd a gynhwysir yn Etholaethau Ogmored a Pontypridd.

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS NICK CLEGG AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi o dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel y nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, arolygu'n barhaus ddosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol. O dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Aiddosbarthu Seddau, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.
2. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal arolygon o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon cyffredinol o etholaethau Seneddol, yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
3. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf ynghylch arolwg cyffredinol (HC 743-I) ar 31 Ionawr 2005, a rhoddwyd ein hargymhellion ar waith gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a luniwyd ar 11 Ebrill 2006 (Offeryn Statudol 2006 Rhif 1041). Daeth yr etholaethau newydd mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn ystod etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007, ac mewn perthynas ag etholaethau Seneddol, daeth yr etholaethau newydd i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010.
4. Daeth Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008 i rym ar 8 Rhagfyr 2008 a newidiodd ffiniau Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Ogmored County Constituency a Pontypridd County Constituency yn dilyn ffiniau llywodraeth leol mwyach. Felly yn unol â'i bwerau o dan Adran 3 (3) Deddf 1986 ac Atodlen 1 Deddf 2006, mae'r Comisiwn wedi cynnal arolwg o ffiniau etholaethau a rhanbarthau etholiadol yn yr ardal.
5. Rhoddom wybod am ein bwriad i ddechrau'r arolwg ar 1 Awst 2010, ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniatodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, cymerodd wyth mis i gwblhau'r arolwg.
6. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd iddynt yn aml fodloni terfynau amser cyfyng iawn.

7. Ein Hysgrifennydd yw Mr Edward Lewis. Cafodd gefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr Matthew Redmond, Mr David Carr, Mrs Liza Harris, Mrs Julie Williams, Mr Ralph Handscomb, Mrs Abigail Prescott-Bird, Mr David Burley, Mrs Catherine Thomas a Miss Caroline Roe.
8. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr arolwg. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r arolwg fynd yn ei flaen.

B. ARGYMHELLION DROS DRO

9. Cyhoeddom ein darpar argymhellion ar 4 Ionawr 2011, a chyhoeddom hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a oedd yn cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau cyn pen y cyfnod statudol o un mis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn manau cyfleus yn yr etholaethau yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn ar www.comffin.cymru.gov.uk.
10. Daeth Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008, i rym ar 8 Rhagfyr 2008 a newidiwyd ffiniau Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Ogmores County Constituency a Pontypridd County Constituency yn dilyn ffiniau llywodraeth leol mwyach, gan effeithio ar gyfanswm o 829 o etholwyr. Ein hargymhellion dros dro oedd newid ffin yr etholaeth er mwyn cydymffurfio â'r ffiniau llywodraeth leol newydd gan drosglwyddo cyfanswm o 733 o etholwyr o Ogmores CC i Pontypridd CC a 96 o etholwyr o Pontypridd CC i Ogmores CC.
11. Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r etholaethau seneddol. Felly, byddai'r newid i'r etholaethau seneddol a gynigir yn ein hargymhellion dros dro yn cynnwys newid etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ogmores a Pontypridd.
12. Cynhwysir etholaeth Ogmores yn rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru y Cynulliad a chynhwysir etholaeth Pontypridd yn rhanbarth etholiadol Canol De Cymru y Cynulliad. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r etholaethau Seneddol, byddai cynnydd o 637 o etholwyr yn rhanbarth etholiadol South Wales Central y Cynulliad a gostyngiad cyfatebol yn rhanbarth etholiadol South Wales West y Cynulliad. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y mân newid hwn, a oedd yn cynnwys nifer fach o etholwyr, yn ei wneud yn ofynnol newid cyfansoddiad rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.

C. CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD

13. Cafwyd tair cynrychiolaeth (a gyflwynir ym mhwyntiau i i iii isod) ynglŷn â'n hargymhellion dros dro cyn pen y cyfnod statudol o fis:
 - i. Ysgrifennodd Owen Smith AS i gefnogi'r argymhellion dros dro ac i ofyn am newid pellach yn y dyfodol.
 - ii. Ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gefnogi'r argymhellion dros dro.
 - iii. Ysgrifennodd Cyngor Cymuned Pont-y-clun i gefnogi'n llawn yr argymhellion dros dro.

14. Gan na chafwyd unrhyw gynrychiolaethau, oddi wrth y prif gyngor na chorff o gant o etholwyr neu fwy, a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion, nid oedd yn ofynnol, o dan adran 6(2) y Ddeddf, cynnal ymholiad lleol cyn rhoi ein hargymhellion ar waith.

D. ARGYMHELLION TERFYNOL

15. Argymhellwn fabwysiadu ein hargymellion dros dro fel a ganlyn:
 - i. bod y ffin rhwng Ogmore County Constituency a Pontypridd County Constituency i'w newid i gydymffurfio â ffin sirol rhwng Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008; a
 - ii. bod y ffin rhwng rhanbarth etholiadol Canol De Cymru y Cynulliad a rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru y Cynulliad i'w newid er mwyn cydymffurfio â'r newid a argymhellwyd ym mhwynt i uchod.
16. Nodir cyfansoddiad manwl y ddwy etholaeth argymelledig yn Atodiad D. Ceir mapiau sy'n dangos y newidiadau argymelledig yn Atodiadau E ac F.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus David Lloyd Jones, *Dirprwy Gadeirydd*

Mr Paul Wood

Mr John Bader

Edward Lewis, Ysgrifennydd

Mawrth 2011

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDAU

Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol uwch na llai na 613.
 - (2) ...
 - (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
 - (4) ...
 2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.
 3. ...
 - 3A. ...
 - 4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3 -
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, -
 - (i) ni chynhwysir unrhyw sir na rhan o unrhyw sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall
 - ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
 - (1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod, mae "sir" yn golygu, mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
 - (2) ...
5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddo fod gwyr'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y maent yn ymwneud â hwy.
 6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddo fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyrriad yn ddymunol.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd y Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond bydd yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n rhesymol -
- (a) yr anghyfleustra wrth newid etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau hyn
 - (b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.
8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer -
- (a) ystyr yr ymadrodd "cwota etholiadol" fydd y nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,
 - (b) ystyr yr ymadrodd "etholwyr" yw -
 - (i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,
 - (ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,
 - (c) ystyr yr ymadrodd "dyddiad cyfrif" mewn perthynas ag unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.
9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol, wedi'i ddilyn gan rif, yn gyfeiriad at reol a nodir yn y paragraff sydd â'r un rhif yn yr Atodlen hon.

RHEOLAU AR GYFER CYFANSODDIAD RHANBARTHU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD

Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Cymru

Y Rheolau

- 8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -
1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.
 2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan roi sylw (lle bo'n briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.
 3. Cyfanswm nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) hanner y nifer a geir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.
 4. Nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) un rhan o bump o gyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) naill ai un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a geir drwy ychwanegu un rhan o bump at y rhif uchaf hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).
- (2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholedig y Cynulliad yn union â phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -
- (a) cyfanswm nifer y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a'r
 - (b) rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rhannu'n union â phump,
- a dyna nifer y seddau sy'n weddill i'r Comisiwn eu dyrannu.
- (3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i ranbarth etholiadol y Cynulliad.
 - (4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad gyda chyfanswm -

- (a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, ac
- (b) un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union â phump,

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddau sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y cynulliad, bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu sedd neu seddau i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw'n cynhyrchu'r nifer neu niferoedd uchaf ar eu cyfer.

DATGANIAD AR Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, lunio cynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG). Paratowyd cynllun gan y Comisiwn, y cymeradwywyd gan ByIG ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o'r cynllun ar gael ar gais, ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn.
3. Dyma'r ymrwymadau a gynhwysir yng nghynllun yr iaith Gymraeg:
 - (a) caiff pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;
 - (b) caiff holl offer swyddfa'r Comisiwn ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (c) caiff gohebiaeth y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y mae'n hysbys ei fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ei hanfon yn y Gymraeg;
 - (d) caiff cylchlythyron, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynau gwybodaeth, datganiadau ymholiadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (e) caiff unrhyw benawdau, allweddau, eglurhadau, rhestr, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a brynir oddi wrth gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
 - (f) lle bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y gall fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith;
 - (g) bydd y Comisiwn yn trefnu bod cyfieithwyr allanol proffesiynol yn mynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y prydd;
 - (h) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi siaradwr Cymraeg yn ei Ysgrifenyddiaeth pan gaiff staff newydd eu recriwtio. I hyrwyddo'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi yn ei Ysgrifenyddiaeth;
 - (i) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddewisir gan y gohebydd;
 - (j) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth cyn pen deng niwrnod gwaith o gael llythyr, ni waeth os bydd angen anfon yr ateb yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog; a

(k) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan y galwr.

4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ystod ymchwiliadau lleol. Mae wedi cytuno y dylai dau gyfieithydd fynychu pob ymchwiliad lleol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg yn ystod ymchwiliadau lleol lle bo tebygolrwydd uchel y bydd pobl yn siarad Cymraeg.

1. Mae cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig fel a ganlyn (dangosir etholaethau 2010 mewn cromfachau):

OGMORE COUNTY CONSTITUENCY (54,806) adrannau etholiadol **Sir Pen-y-bont ar Ogwr**: Abercynffig, Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Caerau, Cefn Cribwr, Felindre, Hendre, Llangeinor, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Penprysg, Pontycymer, Sarn ac Ynysawdre ac adrannau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf**: Brynna, Gilfach Goch, Llanharan a Llanhari.

PONTYPRIDD COUNTY CONSTITUENCY (59,190) adrannau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf**: Beddau, Pentre'r Eglwys, Graig, Y Ddraenen Wen, Llanhari, Tref Llantrisant, Llanilltud Faerdre, Pont-y-clun, Tref Pontypridd, Rhondda, Canol Rhydfelen/Ilan, Ffynnon Taf, Tonysguboriau, Ton-teg, Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail, Trallwng, Trefforest a Tyn-y-nant.

2. Yr adrannau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r adrannau etholiadol a sefydlwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002
- Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009

a

- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002
- Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008

3. Mae cyfansoddiad dau ranbarth etholiadol argymelledig y Cynulliad fel a ganlyn:

CANOL DE CYMRU: Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, Cynon Valley CC, Pontypridd CC, Rhondda CC a Vale of Glamorgan CC.

GORLLEWIN DE CYMRU: Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC a Swansea West BC.

OGMORE A PONTYPRIDD SIR ETHOLAETHAU


Atodiad E



Atgynhychwyd â chwmâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa ei Mawrthyd. © Mawrthyd a hawliau cronfa ddata'i Goron 2011. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100012255.

OGMORE - PONTYPRIDD CONSTITUENCIES A RHANBARTH ETHOLIADOL Y CYNULLIAD

Atodiad F





COMISIWN FFINIAU I GYMRU

**ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A
GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU CARDIFF
NORTH A CARDIFF SOUTH AND PENARTH**

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

**REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS
COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF
CARDIFF NORTH AND CARDIFF SOUTH AND
PENARTH**

MAWRTH 2011

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, cyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod yn rhinwedd ei swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd*.

A thri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS LLOYD JONES, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

MR PAUL WOOD,
a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

MR JOHN BADER,
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDANS.

Ysgrifennydd

Mr Edward Lewis

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD	1
B. ARGYMHELLION DROS DRO.....	3
C. CYNRYCHIO LAETHAU A GAFWYD	4
D. ARGYMHELLION TERFYNOL	5
Atodiad A Rheolau ar gyfer Aiddosbarthu Seddau	6
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad ..	8
Atodiad C Datganiad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg	10
Atodiad D Cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig.....	12
Atodiad E Map o Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge	13

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar berthynas yr ardaloedd a gynhwysir yn Etholaethau Cardiff North a Cardiff South and Penarth.

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS NICK CLEGG AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi o dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel y nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, arolygu'n barhaus ddsbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol. O dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.
2. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal arolygon o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon cyffredinol o etholaethau Seneddol, yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
3. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf ynghylch arolwg cyffredinol (HC 743-I) ar 31 Ionawr 2005, a rhoddwyd ein hargymhellion ar waith gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a luniwyd ar 11 Ebrill 2006 (Offeryn Statudol 2006 Rhif 1041). Daeth yr etholaethau newydd mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn ystod etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007, ac mewn perthynas ag etholaethau Seneddol, daeth yr etholaethau newydd i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010.
4. Daeth Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009 i rym ar 1 Rhagfyr 2009 a newidiodd y ffiniau rhwng Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Cardiff North Borough Constituency a Cardiff South and Penarth Borough Constituency yn dilyn ffiniau llywodraeth leol mwyach. Felly yn unol â'i bwerau o dan Adran 3 (3) Deddf 1986 ac Atodlen 1 Deddf 2006, mae'r Comisiwn wedi cynnal arolwg o ffiniau etholaethau a rhanbarthau etholiadol yn yr ardal.
5. Rhoddom wybod am ein bwriad i ddechrau'r arolwg ar 1 Awst 2010, ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniaaodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, cymerodd wyth mis i gwblhau'r arolwg.

6. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd iddynt yn aml fodloni terfynau amser cyfyng iawn.
7. Ein Hysgrifennydd yw Mr Edward Lewis. Cafodd gefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr Matthew Redmond, Mr David Carr, Mrs Liza Harris, Mrs Julie Williams, Mr Ralph Handscomb, Mrs Abigail Prescott-Bird, Mr David Burley, Mrs Catherine Thomas a Miss Caroline Roe.
8. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr arolwg. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r arolwg fynd yn ei flaen.

B. ARGYMHELLION DROS DRO

9. Cyhoeddom ein darpar argymhellion ar 4 Ionawr 2011, a chyhoeddom hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a oedd yn cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau cyn pen y cyfnod statudol o un mis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn manau cyfleus yn yr etholaethau yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn ar www.comffin.cymru.gov.uk.
10. Daeth Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009 i rym ar 1 Rhagfyr 2009 a newidiodd y ffiniau rhwng Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Cardiff North Borough Constituency a Cardiff South and Penarth Borough Constituency yn dilyn ffiniau llywodraeth leol mwyach, gan effeithio ar gyfanswm o 46 o etholwyr. Ein hargymhellion dros dro oedd newid ffin yr etholaeth er mwyn cydymffurfio â'r ffiniau llywodraeth leol newydd gan drosglwyddo cyfanswm o 46 o etholwyr o Cardiff South and Penarth BC i Cardiff North BC.
11. Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r etholaethau seneddol. Felly, byddai'r newid i'r etholaethau seneddol a gynigir yn ein hargymhellion dros dro yn cynnwys newid etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cardiff North a Cardiff South and Penarth.
12. Cynhwysir etholaethau Cardiff North a Cardiff South and Penarth yn rhanbarth etholiadol Canol De Cymru y Cynulliad felly ni wneir unrhyw newidiadau i'r rhanbarthau etholiadol.

C. CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD

13. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'n hargymhellion dros dro cyn pen y cyfnod statudol o fis.
14. Gan na chafwyd unrhyw gynrychiolaethau, oddi wrth y prif gyngor na chorff o gant o etholwyr neu fwy, a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion, nid oedd yn ofynnol, o dan adran 6(2) y Ddeddf, cynnal ymholiad lleol cyn rhoi ein hargymhellion ar waith.

D. ARGYMHELLION TERFYNOL

15. Argymhellwn fabwysiadu ein hargymellion dros dro fel a ganlyn:
 - i. bod y ffin rhwng Cardiff North Borough Constituency a Cardiff South and Penarth Borough Constituency i'w newid i gydymffurfio â'r ffiniau llywodraeth leol yn Sir Caerdydd fel y'u newidiwyd gan Orchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009.
16. Nodir cyfansoddiad manwl y ddwy etholaeth argymelledig yn Atodiad D. Ceir mapiau sy'n dangos y newidiadau argymelledig yn Atodiad E.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus David Lloyd Jones, *Dirprwy Gadeirydd*

Mr Paul Wood

Mr John Bader

Edward Lewis, Ysgrifennydd

Mawrth 2011

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDAU

Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol uwch na llai na 613.
 - (2) ...
 - (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
 - (4) ...
 2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.
 3. ...
 - 3A. ...
 - 4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3 -
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, -
 - (i) ni chynhwysir unrhyw sir na rhan o unrhyw sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall
 - ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
 - (1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod, mae "sir" yn golygu, mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
 - (2) ...
5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddo fod gwyr'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y maent yn ymwneud â hwy.
 6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddo fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyrriad yn ddymunol.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd y Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond bydd yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n rhesymol -
 - (a) yr anghyfleustra wrth newid etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau hyn
 - (b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.

8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer -
 - (a) ystyr yr ymadrodd "cwota etholiadol" fydd y nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,
 - (b) ystyr yr ymadrodd "etholwyr" yw -
 - (i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,
 - (ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,
 - (c) ystyr yr ymadrodd "dyddiad cyfrif" mewn perthynas ag unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.

9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol, wedi'i ddilyn gan rif, yn gyfeiriad at reol a nodir yn y paragraff sydd â'r un rhif yn yr Atodlen hon.

RHEOLAU AR GYFER CYFANSODDIAD RHANBARTHU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD

Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Cymru

Y Rheolau

- 8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -
1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.
 2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan roi sylw (lle bo'n briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.
 3. Cyfanswm nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) hanner y nifer a geir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.
 4. Nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) un rhan o bump o gyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) naill ai un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a geir drwy ychwanegu un rhan o bump at y rhif uchaf hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).
- (2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholedig y Cynulliad yn union â phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -
- (a) cyfanswm nifer y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a'r
 - (b) rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rhannu'n union â phump,
- a dyna nifer y seddau sy'n weddill i'r Comisiwn eu dyrannu.
- (3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i ranbarth etholiadol y Cynulliad.
 - (4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad gyda chyfanswm -

- (a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, ac
- (b) un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union â phump,

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddau sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y cynulliad, bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu sedd neu seddau i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw'n cynhyrchu'r nifer neu niferoedd uchaf ar eu cyfer.

DATGANIAD AR Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, lunio cynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG). Paratowyd cynllun gan y Comisiwn, y cymeradwywyd gan ByIG ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o'r cynllun ar gael ar gais, ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn.
3. Dyma'r ymrwymadau a gynhwysir yng nghynllun yr iaith Gymraeg:
 - (a) caiff pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;
 - (b) caiff holl offer swyddfa'r Comisiwn ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (c) caiff gohebiaeth y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y mae'n hysbys ei fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ei hanfon yn y Gymraeg;
 - (d) caiff cylchlythyron, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynau gwybodaeth, datganiadau ymholiadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (e) caiff unrhyw benawdau, allweddau, eglurhadau, rhestr, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a brynir oddi wrth gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
 - (f) lle bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y gall fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith;
 - (g) bydd y Comisiwn yn trefnu bod cyfieithwyr allanol proffesiynol yn mynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
 - (h) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi siaradwr Cymraeg yn ei Ysgrifenyddiaeth pan gaiff staff newydd eu recriwtio. I hyrwyddo'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi yn ei Ysgrifenyddiaeth;
 - (i) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddewisir gan y gohebydd;
 - (j) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth cyn pen deng niwrnod gwaith o gael llythyr, ni waeth os bydd angen anfon yr ateb yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog; a

(k) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan y galwr.

4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ystod ymchwiliadau lleol. Mae wedi cytuno y dylai dau gyfieithydd fynychu pob ymchwiliad lleol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg yn ystod ymchwiliadau lleol lle bo tebygolrwydd uchel y bydd pobl yn siarad Cymraeg.

1. The composition of the two recommended constituencies is as follows (the 2010 electorates are shown in brackets):

CARDIFF NORTH BOROUGH CONSTITUENCY (66,969) adrannau etholiadol **Sir Caerdydd**: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Ystum Taf, Llanisien, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina a Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais.


CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY (75,855) adrannau etholiadol **Sir Caerdydd**: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot a Trowbridge ac adrannau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell a Y Sili.

2. Crëwyd yr adrannau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon gan y Gorchymynion canlynol:

- Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trefniadau Etholiadol) 1998
 - Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-afan a Grangetown) 2002
 - Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llysfaen, Trelái a Sain Ffagan) 2003
 - Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009
- a
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002
 - Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002
 - Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

CARDIFF NORTH A CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCIES

Atodiad E





COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU CARDIFF SOUTH AND PENARTH A VALE OF GLAMORGAN

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF CARDIFF SOUTH AND PENARTH AND VALE OF GLAMORGAN

MAWRTH 2011

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, cyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod yn rhinwedd ei swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd*.

A thri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS LLOYD JONES, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

MR PAUL WOOD,
a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

MR JOHN BADER,
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Ysgrifennydd

Mr Edward Lewis

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD	1
B. ARGYMHELLION DROS DRO.....	3
C. CYNRYCHIO LAETHAU A GAFWYD	4
D. ARGYMHELLION TERFYNOL	5
Atodiad A Rheolau ar gyfer Aiddosbarthu Seddau	6
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad ..	8
Atodiad C Datganiad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg	10
Atodiad D Cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig.....	12
Atodiad E Map o Landochau a Llanfihangel.....	13

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar berthynas yr ardaloedd a gynhwysir yn Etholaethau Cardiff South and Penarth a Vale of Glamorgan.

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS NICK CLEGG AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi o dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel y nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, arolygu'n barhaus ddsbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol. O dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeng mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.
2. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal arolygon o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon cyffredinol o etholaethau Seneddol, yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
3. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf ynghylch arolwg cyffredinol (HC 743-I) ar 31 Ionawr 2005, a rhoddwyd ein hargymhellion ar waith gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a luniwyd ar 11 Ebrill 2006 (Offeryn Statudol 2006 Rhif 1041). Daeth yr etholaethau newydd mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn ystod etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007, ac mewn perthynas ag etholaethau Seneddol, daeth yr etholaethau newydd i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010.
4. Daeth Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010 i rym ar 18 Mai 2010 a newidiodd y ffin rhwng Cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-Pwll ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Cardiff South and Penarth Borough Constituency a Vale of Glamorgan County Constituency yn dilyn y ffin llywodraeth leol mwyach. Felly yn unol â'i bwerau o dan Adran 3 (3) Deddf 1986 ac Atodlen 1 Deddf 2006, mae'r Comisiwn wedi cynnal arolwg o ffiniau etholaethau a rhanbarthau etholiadol yn yr ardal.
5. Rhoddom wybod am ein bwriad i ddechrau'r arolwg ar 1 Awst 2010, ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniaaodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, cymerodd wyth mis i gwblhau'r arolwg.

6. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd iddynt yn aml fodloni terfynau amser cyfyng iawn.
7. Ein Hysgrifennydd yw Mr Edward Lewis. Cafodd gefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr Matthew Redmond, Mr David Carr, Mrs Liza Harris, Mrs Julie Williams, Mr Ralph Handscomb, Mrs Abigail Prescott-Bird, Mr David Burley, Mrs Catherine Thomas a Miss Caroline Roe.
8. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr arolwg. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r arolwg fynd yn ei flaen.

B. ARGYMHELLION DROS DRO

9. Cyhoeddom ein darpar argymhellion ar 4 Ionawr 2011, a chyhoeddom hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a oedd yn cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau cyn pen y cyfnod statudol o un mis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn manau cyfleus yn yr etholaethau yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn ar www.comffin.cymru.gov.uk.
10. Daeth Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010 i rym ar 18 Mai 2010 a newidiodd y ffin rhwng Cymunedau Llandochoau a Llanfihangel-y-pwll ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Cardiff South and Penarth Borough Constituency a Vale of Glamorgan County Constituency yn dilyn y ffin llywodraeth leol mwyach gan effeithio ar gyfanswm o 3 o etholwyr. Ein hargymhellion dros dro oedd newid ffin yr etholaeth er mwyn cydymffurfio â'r ffiniau llywodraeth leol newydd gan drosglwyddo cyfanswm o 3 o etholwyr o Cardiff South and Penarth BC i Vale of Glamorgan CC.
11. Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r etholaethau seneddol. Felly, byddai'r newid i'r etholaethau seneddol a gynigir yn ein hargymhellion dros dro yn cynnwys newid etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cardiff South and Penarth a Vale of Glamorgan.
12. Cynhwysir etholaethau Cardiff South and Penarth a Vale of Glamorgan yn rhanbarth etholiadol Canol De Cymru y Cynulliad felly ni wneir unrhyw newidiadau i'r rhanbarthau etholiadol.

C. CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD

13. Ni chafwyd unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'n hargymhellion dros dro cyn pen y cyfnod statudol o fis.
14. Gan na chafwyd unrhyw gynrychiolaethau, oddi wrth y prif gyngor na chorff o gant o etholwyr neu fwy, a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion, nid oedd yn ofynnol, o dan adran 6(2) y Ddeddf, cynnal ymholiad lleol cyn rhoi ein hargymhellion ar waith.

D. ARGYMHELLION TERFYNOL

15. Argymhellwn fabwysiadu ein hargymellion dros dro fel a ganlyn:
 - i. bod y ffin rhwng Cardiff South and Penarth Borough Constituency a Vale of Glamorgan County Constituency i'w newid i gydymffurfio â'r ffin llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.
16. Nodir cyfansoddiad manwl y ddwy etholaeth argymelledig yn Atodiad D. Ceir mapiau sy'n dangos y newidiadau argymelledig yn Atodiad E.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus David Lloyd Jones, *Dirprwy Gadeirydd*

Mr Paul Wood

Mr John Bader

Edward Lewis, Ysgrifennydd

Mawrth 2011

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDAU

Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol uwch na llai na 613.
 - (2) ...
 - (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
 - (4) ...
 2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.
 3. ...
 - 3A. ...
 - 4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3 -
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, -
 - (i) ni chynhwysir unrhyw sir na rhan o unrhyw sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall
 - ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
 - (1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod, mae "sir" yn golygu, mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
 - (2) ...
5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddo fod gwyr'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y maent yn ymwneud â hwy.
 6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddo fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyrriad yn ddymunol.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd y Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond bydd yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n rhesymol -
 - (a) yr anghyfleustra wrth newid etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau hyn
 - (b) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.

8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer -
 - (a) ystyr yr ymadrodd "cwota etholiadol" fydd y nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,
 - (b) ystyr yr ymadrodd "etholwyr" yw -
 - (i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,
 - (ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,
 - (c) ystyr yr ymadrodd "dyddiad cyfrif" mewn perthynas ag unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.

9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol, wedi'i ddilyn gan rif, yn gyfeiriad at reol a nodir yn y paragraff sydd â'r un rhif yn yr Atodlen hon.

RHEOLAU AR GYFER CYFANSODDIAD RHANBARTHU ETHOLIADOL Y CYNULLIADAtodlen 1 Deddf Llywodraeth Cymru**Y Rheolau**

- 8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -
1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.
 2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan roi sylw (lle bo'n briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.
 3. Cyfanswm nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) hanner y nifer a geir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.
 4. Nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) un rhan o bump o gyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) naill ai un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a geir drwy ychwanegu un rhan o bump at y rhif uchaf hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).
- (2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholedig y Cynulliad yn union â phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -
- (a) cyfanswm nifer y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a'r
 - (b) rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rhannu'n union â phump,
- a dyna nifer y seddau sy'n weddill i'r Comisiwn eu dyrannu.
- (3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i ranbarth etholiadol y Cynulliad.
 - (4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad gyda chyfanswm -

- (a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, ac
- (b) un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union â phump,

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddau sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y cynulliad, bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu sedd neu seddau i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw'n cynhyrchu'r nifer neu niferoedd uchaf ar eu cyfer.

DATGANIAD AR Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, lunio cynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BylG). Paratowyd cynllun gan y Comisiwn, y cymeradwywyd gan BylG ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o'r cynllun ar gael ar gais, ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn.
3. Dyma'r ymrwymïadau a gynhwysir yng nghynllun yr iaith Gymraeg:
 - (a) caiff pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;
 - (b) caiff holl offer swyddfa'r Comisiwn ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (c) caiff gohebiaeth y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y mae'n hysbys ei fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ei hanfon yn y Gymraeg;
 - (d) caiff cylchlythyron, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynau gwybodaeth, datganiadau ymholiadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (e) caiff unrhyw benawdau, allweddau, eglurhadau, rhestrï, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a brynir oddi wrth gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
 - (f) lle bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y gall fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith;
 - (g) bydd y Comisiwn yn trefnu bod cyfieithwyr allanol proffesiynol yn mynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
 - (h) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi siaradwr Cymraeg yn ei Ysgrifenyddiaeth pan gaiff staff newydd eu recriwtio. I hyrwyddo'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi yn ei Ysgrifenyddiaeth;
 - (i) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddewisir gan y gohebydd;
 - (j) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth cyn pen deng niwrnod gwaith o gael llythyr, ni waeth os bydd angen anfon yr ateb yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog; a

(k) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan y galwr.

4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ystod ymchwiliadau lleol. Mae wedi cytuno y dylai dau gyfieithydd fynychu pob ymchwiliad lleol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg yn ystod ymchwiliadau lleol lle bo tebygolrwydd uchel y bydd pobl yn siarad Cymraeg.

1. The composition of the two recommended constituencies is as follows (the 2010 electorates are shown in brackets):

CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY (75,898)

adrannau etholiadol **Sir Caerdydd**: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot a Trowbridge ac adrannau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Cornerswell, Llandochoau, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell a Y Sili.

VALE OF GLAMORGAN COUNTY CONSTITUENCY (71,550) adrannau etholiadol

Sir Bro Morgannwg: Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Y Cwrt, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandw/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-Brid a Gwenfo

2. Crëwyd yr adrannau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon gan y Gorchymynion canlynol:

- Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-afan a Grangetown) 2002
- Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llysfaen, Trelái a Sain Ffagan) 2003
- Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Yr Hen Laneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009

a

- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002
- Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-afan a Grangetown) 2002
- Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002
- Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY A VALE OF GLAMORGAN COUNTY CONSTITUENCY

Atodiad E

